

## **CRYNODEB GWEITHREDOL: YSGOLION YR 21AIN GANRIF – YSGOL CROESYCEILIOG – TREFNIADAU YMGYNGHORI.**

### **1 Rhagarweiniad**

- 1.1 Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn egluro'r rhesymau a'r trefniadau ymgynghori mewn perthynas â chynnig i leihau'r capasiti 11 -16 yn Ysgol Croesyceiliog i 1200 o leoedd, ac eglura cam nesaf y broses.

### **2 Diben yr Adroddiad**

- 2.1 Darparu manylion y trefniadau ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig hwn.

### **3 Negeseuon Allweddol**

- 3.1 Cafodd cynigion Ysgolion yr 21ain Ganrif Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen eu derbyn yn dda gan Lywodraeth Cymru. I rai rhannau o Dorfaen bydd hyn yn arwain at ysgolion newydd. Yn anffodus, fodd bynnag, i rai cymunedau lleol, bydd hyn yn golygu cau neu uno'u hysgolion. Nid yw hyn yn rhywbeth newydd yn Nhorfaen - ers ei sefydlu, mae'r cyngor wedi bod yn gweithio i ad-drefnu ysgolion i uwchraddio'r ystâd sy'n cynnwys cyfuniad o gau, cyfuno, ailwampio ac adeiladu ysgolion o'r newydd.

- 3.2 Mae rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'i dogfennu'n dda, gyda'r cyngor yn cymryd y penderfyniad i gynnwys pob ysgol fel rhan ohoni ym mis Hydref 2010. Ceisiodd y cyngor farn pawb sydd â diddordeb ar ei rhaglen yn ystod cyfres o sioeau teithiol a gynhaliwyd ar draws y fwrdeistref sirol ym mis Mawrth 2011. Adroddwyd ynghylch canlyniad yr ymgysylltu cyhoeddus i'r cabinet ym mis Gorffennaf 2011.

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn cyfeirio at gynnig am ei fod yn effeithio ar Ysgol Croesyceiliog fel y nodwyd ym Mand A (2014 i 2019) y rhaglen.

- 3.3 Ym Medi 2016 cytunodd Cabinet Torfaen i ddechrau ymgynghori ar y cynnig penodol hwn. Yn yr un cyfarfod, cytunwyd hefyd i ddechrau ymgynghoriad ffurfiol ar gynigion i wneud newid rheoleiddiedig i Ysgol Croesyceiliog, Ysgol Uwchradd Cwmbrân ac Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban drwy roi terfyn ar ddarpariaeth 6ed Dosbarth a sefydlu Canolfan 6ed Dosbarth ar gyfer Torfaen.

Bydd y cynigion penodol yn cael eu hamlinellu mewn dogfen ymgynghori ar wahân.

- 3.4 Cynigir bod y newid hwn yn cael ei roi ar waith ar 1 Medi 2018.

### **4 Cefndir**

- 4.1 Cyflwynwyd yr Achos Busnes Amlinellol (ABA) mewn perthynas â'r cynnig hwn dyddiedig Tachwedd 2015 i Lywodraeth Cymru ar 1 Rhagfyr 2015. Derbyniodd y cyngor gymeradwyaeth i symud ymlaen i'r cam nesaf, a chyflwynwyd Achos Busnes

Terfynol (ABT) ym mis Chwefror 2016.

Dyma'r pedwar Amcan Buddsoddi byddwn yn eu cyflawni o ganlyniad y prosiect hwn:

- Gwella effeithiolrwydd a chanlyniadau gwasanaethau i bob dysgwr.
- Cynnig darbodion ac effeithlonrwydd wrth ddarparu'r gwasanaeth.
- Cynnig cyfleoedd newydd a chyfleoedd gwell i bob dysgwr.
- Gwella profiadau'r dysgwr a'r atyniad i bob dysgwr.

Bydd datblygu'r cynnig Ôl-16 hefyd yn galluogi'r cyngor i ddatblygu'r cynnig i adeiladu o'r newydd yn ysgol uwchradd Croesyceiliog fel y nodir ym Mand A, (2014-2019).

4.2 Mae'r cynnig hwn yn gofyn am ymgynghoriad ffurfiol oherwydd bod cynnig i ostwng capasiti ffisegol yr ysgol ac ni fydd y capasiti arfaethedig yn fwy na'r nifer uchaf o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flwyddyn ysgol flaenorol cyn cyhoeddi'r cynnig.

Roedd 1,314 o ddisgyblion 11 i 16 oed ar y gofrestr ym mis Medi 2014, ac 1,319 ym mis Medi 2015, wedi'i fesur yn erbyn y capasiti arfaethedig o 1200 o leoedd o fis Medi 2018.

Yn yr achos busnes i gefnogi'r achos ar gyfer ysgol newydd, yr oedd yn dangos, y dylid gostwng nifer y lleoedd yn ysgol Croesyceiliog i 1200 am fod yr ysgol yn denu nifer o ddisgyblion o'r tu allan i'r dalgylch a hynny er mwyn cyfyngu ar nifer y lleoedd sydd ar sydd ar gael i'r rhai o'r tu allan i'r dalgylch. Fodd bynnag, bydd angen iddi fod ychydig yn fwy na'r arfer i ddarparu lleoedd ar gyfer ei holl ddisgyblion ar yr adeg trosglwyddo.

Cynigir y byddai'r adeilad newydd yng Nghroesyceiliog yn barod ym mis Medi 2019 a bydd lleihau'r capasiti o fis Medi 2018 yn helpu i reoli'r costau pontio a'r costau referniw sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu newydd.

## **5 Materion a chanfyddiadau**

5.1 Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol bod yn rhaid i ymgynghoreion gael o leiaf 42 diwrnod i ymateb i'r ddogfen, gydag o leiaf 20 o'r rhain yn ddiwrnodau ysgol. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, bydd y cyfnod ymgynghori yn cychwyn ar ddydd Llun 17 Hydref 2016 ac yn cau ar ddydd Llun 28 Tachwedd, 2016.

5.2 Bydd yr ymgynghoriad yn cychwyn drwy gyhoeddi dogfen ymgynghorol, fydd yn cael ei dosbarthu i ymgynghoreion penodedig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013,

yn gwahodd sylwadau ar y cynnig. Bydd plant a phobl ifanc hefyd yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

- 5.3 Bydd y ddogfen ymgynghori yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol am y cynnig, amlinellu'r newidiadau sy'n cael eu hystyried, y rhesymeg ar gyfer y rhain, manylion am y broses ymgynghori a bydd yn cynnwys ffurflen ymateb. Bydd Ymgynghoreion yn cael gwybod bod fersiwn ar gael i'w llenwi ar lein a bydd hefyd cyfeiriadau i anfon sylwadau drwy e-bost.
- 5.4 Bydd y broses ymgynghori hefyd yn cael ei hyrwyddo ar lein, ar wefan cyngor Torfaen a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Gellir cynnig barn neu sylwadau:

- Trwy ysgrifennu at Mr Dermot McChrystal, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg (AT SYLW Mark Horton) d/o Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Y Ganolfan Ddinesig, Pont-y-pŵl, Torfaen NP4 6YB.
- Trwy e-bost: [secondaryreview@torfaen.gov.uk](mailto:secondaryreview@torfaen.gov.uk).
- Trwy lenwi profforma ymateb (sydd wedi ei hatodi fel atodiad i'r ddogfen ymgynghori) a'i dychwelyd i'r cyfeiriad uchod.

## **6 Materion Allweddol.**

- 6.1 Mae ymgynghoriad statudol yn angenrheidiol, oherwydd bod y cyngor yn cynnig gostyngiad yng nghapasiti ffisegol yr ysgol
- 6.2 Yn benodol, bydd y capasiti a'r Nifer Derbyn cysylltiedig yn gostwng o 1 Medi 2018.
- 6.3 Rhagwelir y bydd yr adeilad newydd ar gyfer Croesyceiliog yn barod ym mis Medi 2019 a bydd lleihau'r capasiti o fis Medi 2018 yn helpu i reoli'r costau pontio a refeniw sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu newydd.

## **7 Beth sy'n digwydd nesaf?**

- 7.1 Mae'r amserlen ddangosol a ganlyn yn manylu ar yr hyn sy'n digwydd nesaf ac yn egluro'r broses statudol:
- Ymgynghoriad cychwynnol ar y broses (6 wythnos) - 17 Hydref, 2016 i 28 Tachwedd, 2016
  - y Cabinet yn derbyn adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad ac yn ystyried y camau nesaf - Rhagfyr 2016 / Ionawr 2017
  - Os cytunir, hysbysiadau statudol yn cael eu cyhoeddi (cyfnod gwrthwynebu o 28 diwrnod) - Ionawr / Chwefror 2017
  - Gwrthwynebiadau yn cael eu hystyried ac ystyried y camau nesaf - Chwefror / Mawrth 2017

- Rhoi'r cynnig ar waith - dechrau'r flwyddyn academaidd 2018/19.

## **8 Casgliad / Crynodeb**

8.1 Bydd gweithredu'r cynnig hwn yn ffurfio rhan hanfodol o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn Nhorfaen, yn nhermau:

- rheoli lleoedd gwag yn effeithiol
- caniatáu'r Awdurdod Lleol i resymoli ei stoc adeiladau ac felly cael llai o ysgolion i'w cynnal, cadw ac ariannu
- medru darparu addysg eang ac o safon uchel ar gyfer holl ddisgyblion yn y gymuned.

## **9 Gwybodaeth bellach**

Mae copi llawn o'r ddogfen ymgynghori y cyfeirir ati yn y crynodeb gweithredol ar gael drwy ffonio 01495 766910 neu drwy fynd i wefan y Cyngor: [www.torfaen.gov.uk](http://www.torfaen.gov.uk).

Os oes angen gwybodaeth bellach ynglŷn â'r cynnig hwn, cysylltwch â Mark Horton Ffôn: 01495 766910 neu e-bost: [mark.horton@torfaen.gov.uk](mailto:mark.horton@torfaen.gov.uk)



